**WHC (2023) 029**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 17 Awst 2023**

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl:** Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol (WRVP) : Hydref a Gaeaf 2023 i 2024

**Dyddiad dod i ben / Adolygu: Ddim yn berthnasol**

**I'w weithredu gan:**

| **I'w weithredu gan:** | **Er gwybodaeth i:** |
|---|---|
| Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd<br>Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/ Byrddau Iechyd<br>Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd<br>Arweinwyr Gweithredol Brechu, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd<br>Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd<br>Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd<br>Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd<br>Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd<br>Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd<br>Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Mamolaeth, Byrddau Iechyd<br>Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd | Fforwm Partneriaeth GIG Cymru<br>Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru<br>Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol<br>Coleg Nyrsio Brenhinol<br>Coleg Brenhinol y Bydwragedd<br>Cymdeithas Ddeintyddol Prydain<br>Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol<br>Fferylliaeth Gymunedol Cymru<br>Arolygiaeth Gofal Cymru<br>Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w anfon ymlaen at:<br>Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdodau Lleol<br>Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, Awdurdodau Lleol<br>Cyfarwyddwyr Addysg, awdurdodau lleol<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Addysg a Gwella Iechyd Cymru |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Cyfarwyddwr Cynllunio, Rhaglen Frechu Cymru<br>Ymarferwyr Cyffredinol<br>Fferyllwyr cymunedol<br>Iechyd a Gofal Digidol Cymru | |

**Anfonir gan:** Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

**Enw(au) Cyswllt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Yr Is-adran Frechu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: wg.vaccinationsprogrammeteam@gov.wales

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Atodiad A - Gwybodaeth am raglen frechu COVID-19.

Annwyl gydweithwyr

**Rhaglen Frechu’r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol: Hydref-Gaeaf 2023/24**

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r pwysau parhaus a wynebir gan ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth i'r hydref a'r gaeaf nesáu, mae'n hanfodol ein bod i gyd yn gwneud popeth posibl i atal heintiau anadlol rhag llethu'r system.

Mae afiechydon anadlol yn ffynnu yn y gaeaf gan roi'r system iechyd a gofal o dan straen sylweddol bob blwyddyn. Gwelir yr effaith hon o ran absenoldeb staffio ac yn nifer y bobl sy'n gorfod cael mynediad at wasanaethau'r GIG yn ystod y tymor. Mae brechu yn offeryn hanfodol sy'n helpu i liniaru effeithiau feirysau anadlol sy'n cylchredeg yn y gymuned, i amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed ac i gefnogi cydnerthedd y GIG a'r system ofal ar adeg o bwysau mawr.

Yr hydref diwethaf cafodd y Rhaglen Frechu gyntaf y Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol i Gymru ei chyflwyno, drwy ddod â rhaglenni brechu COVID-19 a'r ffliw ynghyd. Gwnaeth hyn alluogi'r byrddau iechyd i gydgysylltu cynllunio'r ddwy raglen a, lle'r oedd yn bosibl, i symleiddio'r gwaith cyflenwi. Fe hwylusodd brofiad gwell i gleifion hefyd. Cafodd dros 1.1 filiwn o bobl bigiad atgyfnerthu COVID-19 a chafodd dros filiwn o frechlynnau ffliw eu gweinyddu yn ystod y rhaglen.

Er mwyn elwa ar y llwyddiant hwnnw, yn 2023/24 bydd y Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio rhag y Ffliw a Rhaglen Frechu COVID-19 unwaith eto yn cael eu dwyn ynghyd i ffurfio un Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol (WRVP2023/24). Bydd y rhaglen hon yn cael ei thanategu gan yr egwyddorion allweddol:

- Amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn perygl
- Amddiffyn plant a phobl ifanc
- Amddiffyn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen
- Amddiffyn y GIG

I weithredu WRVP 2023/24 yn effeithiol, dylai'r byrddau iechyd ddatblygu cynlluniau ar gyfer un rhaglen gydgysylltiedig a chydlynol i'r ddau frechlyn. Lle bynnag y bo modd, dylid cysoni modelau cyflenwi i ganiatáu ar gyfer cyd-weinyddu, i helpu i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau ac i leihau annhegwch o ran brechu.

Rhaglen Frechu Cymru fydd yn gwneud gwaith goruchwylio a sicrwydd y GIG o ran cynllunio a darparu'r rhaglen frechu. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddarparu cyngor a chanllawiau arbenigol am frechu am glefydau y gellir eu hatal trwy frechu, arweinyddiaeth systemau, epidemioleg a gwyliadwriaeth

Disgwylir i fyrddau iechyd rannu eu cynlluniau ar gyfer Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol gan nodi sut y byddant yn cyflawni'r cyfraddau brechu a'r targedau perfformiad a nodir isod (gan gynnwys asesiadau perthnasol o'r effaith ar gydraddoldeb) drwy lywodraethu Rhaglen Frechu Cymru.

<u>Blaenoriaethau ar gyfer WRVP 2023/24</u>

Mae ein rhaglenni brechu, ac yn benodol pwy sy'n gymwys am frechlyn, bob amser yn cael eu harwain gan y dystiolaeth glinigol a gwyddonol ddiweddaraf. Maent hefyd wedi'u cynllunio yn unol â'r cyngor diweddaraf gan y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a thrwy gyfarwyddyd gennyf fi, fel Prif Swyddog Meddygol Cymru.

Ein blaenoriaeth ni, fel bob amser, yw **cynyddu cyfraddau brechu** yn achos brechlynnau'r ffliw a COVID-19 i bawb sy'n gymwys.

Mae tystiolaeth yn dangos bod y cyfraddau brechu ar eu gorau pan fydd brechlynnau'n cael eu darparu mor agos â phosibl at gymunedau, pan fydd systemau galw ac atgoffa cadarn ar waith, a phan fydd cymhwysedd a manteision brechu yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol. I'r perwyl hwn, disgwylir i fyrddau iechyd ddyblu eu hymdrechion i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar frechlynnau a datblygu cynlluniau i leihau rhwystrau sy'n achosi annhegwch.

Uchelgeisiau a Disgwyliadau:

- Dylid cynnig brechlyn COVID-19 i bawb sy'n gymwys erbyn 30 Tachwedd 2023
- Dylid cynnig y brechlyn ffliw i bawb sy'n gymwys, ar y cyfle cyntaf posibl.
- Nodir ein disgwyliadau ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn y tabl isod:

| | **Y ffliw** | **COVID-19** |
|---|---|---|
| **Gweithwyr iechyd a gofal rheng flaen** | Cyfradd frechu o 75% | Holl staff y rheng flaen i gael cynnig brechlyn ar y cyfle cyntaf |
| **Oedolion cymwys eraill a phlant sy'n agored i niwed yn glinigol** | Cyfradd frechu o 75% | Cyfradd frechu o 75% |

- Disgwylir i fyrddau iechyd leihau'r bwlch mewn cyfraddau brechu rhwng y cymunedau lleiaf difreintiedig a mwyaf difreintiedig o fewn eu hardal bwrdd iechyd (o'i gymharu â'r lefelau a welwyd yn ystod rhaglen WRVP 2022/23).
- Yn y rhaglen ffliw ar gyfer plant, mae'r cyfraddau brechu wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod y tymhorau diwethaf. Rhaid gwrthdroi'r duedd hon, a datblygu cynlluniau i gynyddu'r cyfraddau brechu dros y tymhorau nesaf. Mae disgwyliad y bydd byrddau iechyd yn datblygu cynlluniau i gyrraedd 75% o bobl ifanc 2 a 3 oed, ac yn y rhaglen mewn ysgolion, erbyn diwedd tymor 2025/26. Disgwylir i bob bwrdd iechyd allu dangos bod y gwelliant hwn wedi dechrau yn ystod tymor 2023/24.

Dylid rhoi sylw arbennig i'r grwpiau canlynol:

- Mae **plant 2 a 3 oed (**plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2021) yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y brechiad rhag y ffliw y tymor hwn. Yn ogystal ag amddiffyn y plant ifanc iawn hyn rhag salwch difrifol, mae brechu'r grŵp oedran hwn hefyd yn helpu i amddiffyn y rhai sy'n gofalu amdanynt gan gynnwys rhieni, teidiau a neiniau a'r gymuned ehangach trwy leihau lefelau cyffredinol trosglwyddo.

- Mae ***menywod beichiog*** yn cael eu hannog i gael eu brechu i helpu i amddiffyn eu hunain a'u babanod. Mae tystiolaeth yn dangos bod gan fenywod beichiog fwy o siawns o ddatblygu cymhlethdodau os byddant yn cael y ffliw neu COVID-19, yn enwedig yng nghamau olaf beichiogrwydd. Lle bo'n briodol yn glinigol dylai menywod gael eu hannog hefyd i gael y brechlyn pertwsis. Er mai rhaglen frechu drwy gydol y flwyddyn yw hon, gall haint pertwsis fod yn faich sylweddol yn ystod misoedd y gaeaf, yn enwedig ymhlith babanod sy'n rhy ifanc i fod wedi cael eu brechiadau sylfaenol eu hunain.

- Mae ***gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol*** yn cael eu hannog i fanteisio ar y cynnig o frechlyn y ffliw cyn gynted â phosibl. Bydd yr amddiffyniad a gynigir gan frechiadau yn helpu i atal gweithwyr rheng flaen rhag mynd yn sâl a bydd hefyd yn amddiffyn y system iechyd a gofal cymdeithasol rhag cael ei orlethu.

- Dylid cynnig y ddau frechlyn i ***gleifion COPD*** cyn gynted â phosibl oherwydd yr effaith ddifrifol y gall clefydau anadlol ei chael ar y cleifion hyn.

Gwybodaeth am y Rhaglen

Cyhoeddwyd gwybodaeth benodol am y rhaglen brechu rhag y ffliw mewn Cylchlythyr Iechyd Cymru ar wahân ar 22 Mehefin 2023 ac mae ar gael yma.

Gellir dod o hyd i wybodaeth benodol am raglen frechu COVID-19 yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Rydym yn eich annog i rannu'r canllawiau hyn â phawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen yn eich ardal.

Y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol

Wrth weithredu'r rhaglenni a ddisgrifir yn y cylchlythyr hwn, bydd sefydliadau'r GIG hefyd yn gweithredu'r uchelgeisiau a amlinellir yn y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol i Gymru. Dylid cymhwyso'r egwyddorion a ddisgrifir yn y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol i drefniadau a roddwyd ar waith i gyflwyno'r newidiadau i raglenni'r ffliw a COVID-19 lle bynnag y bo modd, gan gynnwys brechu teg a deunyddiau gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai sefydliadau edrych ymlaen at welliannau a fydd yn deillio o weithredu'r Fframwaith dros y blynyddoedd nesaf wrth ddylunio eu rhaglenni.

Er mwyn sicrhau bod tegwch wrth wraidd y system frechu yng Nghymru mae'n rhaid i bawb sy'n gymwys gael cynnig brechiad mewn ffordd hygyrch. Rhaid i ddinasyddion gael eu cefnogi hefyd trwy gael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ffynonellau dibynadwy. Yn aml bydd hyn yn gofyn am gymorth wedi'i deilwra  er mwyn galluogi ac annog y rhai na fyddent fel arall o bosibl yn manteisio ar y cynnig o frechiad i gael eu brechu.

Hoffwn achub y cyfle hwn i fynegi fy niolch i bawb sy'n ymwneud â chyflawni WRVP 2023/24. Mae rhoi'r ymgyrch hon ar waith yn rhoi cyfle i ni ymgysylltu â'r cyhoedd ar bwysigrwydd brechu. Mae'n ein galluogi hefyd i gynnig amddiffyniad i'n dinasyddion, ein cymunedau, y GIG a'r system ofal y gaeaf hwn. Hoffwn ddiolch ichi ymlaen llaw am y rhan y byddwch yn ei chwarae yn hynny.

Yn gywir



**Syr Frank Atherton**
**Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**